## Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

## COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION (FFCY) CAERDYDD

**Amser:** 8.30am – 10.30am
**Dyddiad:** 2 Gorffennaf 2025
**Lleoliad:** Microsoft Teams
**Yn bresennol:** Cadeirydd – Andrew Skinner (AS), Y Cynghorydd Sarah Merry (SM), Y Cynghorydd Chris Weaver (CW), Melanie Godfrey (MG), Helen Williams (HW), Eifion Austin (EA), Phil Norton, Angela Jardine (AJ), Jennie Hughes (JH), Nic Naish (NN), Tim Adams (TA), Stuart Davies (SD), David Silver (DS), Wayne Murphy (WM), Abigale Cuthbert (AC), Nick Alexander (NA), Suzanne Scarlett (SS), Marc Belli (MB), Nicola Price (NP), Matthew Evans (ME), Gareth Rein (GR), Carys Prytherch (CP), Ivor Gittins (IG), Sue Powell (SP), Chris Pyke (CPy), Clerc Rheoli Addysg

**Ymddiheuriadau:** Ian Allwood (IA), Geraldine Foley (GF), Paul Tucker (PT), Sara Allen (SA), Will Howlett (WH), Emma Richards (ER), Ann Griffin (AG), Richard Portas (RP), Sarah Parry (SP), Alison Poole (AP), Phillip Andrews (PA), Diane Gill (DG), Alison Powell (AP), Catherine Power (CP), Cllr Joel Williams (JW), Suzanne Williams (SW), Patrick Brunnock (PB),

| Cyf | **Casgliadau/Camau Gweithredu** | **Pwy** |
|---|---|---|
| 1.0 | **Ymddiheuriadau a chroeso** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a derbyniodd ymddiheuriadau. | |
| 2.0 | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**<br><br>Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir. | |
| 2.1 | Camau gweithredu/materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:<br><br>• Bydd offer i gynorthwyo penaethiaid yn eu cynllunio yn cael eu mireinio yn dilyn trafodaethau pellach a'u dwyn i gyfarfod y FfCY ym mis Medi 2025.<br>• Bydd cynllunio ariannol/gweithredu'r model newydd o gyllid ar gyfer swyddogion presenoldeb ysgol yn cael ei drafod yng nghyfarfod y FfCY ym mis Tachwedd 2025 / mis Ionawr 2026 yn dilyn cynnydd ar yr adolygiadau.<br>• Bydd y Cadeirydd yn gwirio a oedd arwyddion ar y gwahaniaeth mewn ffigurau rhwng dulliau fformiwla 2024/25 a 2025/26 wedi cael eu trafod yng nghyfarfod mis Mai'r FfCY tra'n ystyried dulliau fformiwla gwahanol a'r newid canlyniadol yn y ffrwd gyllid.<br>• Bydd newidiadau/rhagdybiaethau o fewn y fformiwla, gan gynnwys ffioedd arholiadau mewn ysgolion uwchradd yn cael eu cadarnhau ym mis Ionawr 2026 fel prawf sensitifrwydd.<br>• Gwahoddir MO'B i gyfarfod nesaf y FfCY i roi manylion manwl ar y materion a'r pecynnau cytundeb lefel gwasanaeth (CLG) y mae'n rhaid i'r ysgolion eu trefnu, y tu allan i'r pecyn llawn.<br>• Gofynnodd ME pryd y byddai ysgolion yn derbyn ad-daliadau ar ôl y brigdoriad technoleg addysg ac a fyddai'r rhaglen Prentisiaethau Iau yn rhedeg y flwyddyn nesaf. Roedd angen ad-dalu'r brigdoriad mewn ysgolion er mwyn i ddysgwyr barhau â'r rhaglen a ddarperir gan Goleg Caerdydd a'r Fro ac i unrhyw ddysgwyr blwyddyn deg newydd a oedd yn dechrau'r cwrs. | EA<br><br>EA<br><br>Cadeirydd<br><br>Clerc, MO'B<br><br>EA |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae Coleg Caerdydd a’r Fro’n parhau i godi tâl ar ysgolion. Cam Gweithredu: Bydd EA yn mynd ar drywydd yr ad-daliad technoleg addysg.<br>Nododd MG fod ysgolion uwchradd yn cael elfen o hyblygrwydd ynghylch a ddylid optio i mewn i dechnoleg addysg, gan gydnabod y ddarpariaeth TG gyfredol mewn ysgolion. Byddai ysgolion a oedd wedi optio allan yn cael eu had-dalu.<br>Dywedodd MG fod rhai ysgolion uwchradd wedi mynegi pryderon am y rhaglen Prentisiaethau Iau, ac roedd sgyrsiau parhaus yn cael eu cynnal gyda Choleg Caerdydd a’r Fro. Bydd Coleg Caerdydd a’r Fro yn rhoi data i Gadeirydd ysgolion uwchradd. Cytunwyd bod hanfod y rhaglen yn werthfawr, os caiff ei chymhwyso'n briodol. Mae canllawiau newydd yn cael eu drafftio ar reoli cyfraddau gadael, gyda'r ALl i dderbyn dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i'r rhaglen, yn hytrach nag ysgolion.<br>Gofynnodd ME a oedd cynnig cyfredol ar gyfer dysgwyr blwyddyn naw ac a oedd cylch newydd yn dechrau. Roedd yr ysgol wedi cyllidebu ar gyfer blwyddyn 10 yn symud i flwyddyn 11. A oedd y cyllid ar gyfer Prentisiaethau Iau wedi’i ddyrannu neu ei ddychwelyd i ysgolion? Cam Gweithredu: Bydd MG yn mynd ar drywydd yr ymatebion angenrheidiol gan Goleg Caerdydd a’r Fro.<br>Mynegodd SD bryderon am y mecanwaith cyllido a oedd yn cael ei ddefnyddio gan Goleg Caerdydd a’r Fro a’r diffyg atebolrwydd i ysgolion. Roedd yn ymddangos bod Coleg Caerdydd a’r Fro yn disgwyl cael cyllid fesul disgybl fesul ysgol, ond roedd y trefniant brigdoriad yn dal i fod ar waith.<br>Nododd NN drafodaethau parhaus ar y CLG TG/technoleg addysg a gofynnodd beth oedd wedi'i frigdorri o'r gyllideb, sut y cafodd ei ddefnyddio a pha gyfran a gadwyd gan ysgolion. Roedd costau i ysgolion cynradd yn aneglur ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r cynllun pum mlynedd gael ei rannu.<br>Nododd MG bresenoldeb diweddar yn y gynhadledd ysgolion cynradd, gyda rhywfaint o ddryswch ar dechnoleg addysg o'r ALl ac ysgolion. Gellir darparu manylion costau. Roedd seiberddiogelwch dan fandad ar gyfer ysgolion cynradd yn y flwyddyn gyntaf. Gellir trafod y pedair blynedd a oedd yn weddill a'r CLGau ymhellach. Gellir ymestyn y wybodaeth yn yr astudiaeth achos gan RP i ysgolion cynradd eraill. Cam Gweithredu: Bydd MG yn mynd ar drywydd hyn.<br>Tynnodd NN sylw at gostau is gyda darparwr arall a oedd wrthi’n darparu TG i ALl mawr arall yng Nghymru, ac awgrymodd gyfarfod ar wahân gydag MG ac aelod o'r fforwm technoleg addysg i drafod ymhellach.<br>Awgrymodd AJ gynnal gweminar technoleg addysg ar gyfer penaethiaid ysgolion cynradd ac undebau llafur er eglurder.<br>Cam Gweithredu: NN i drafod gydag MG, bydd eglurder yn cael ei ddwyn yn ôl i’r FfCY ym mis Medi, bydd MO'B yn mynychu. Bydd NN yn ystyried y dull o gyflwyno'r wybodaeth yng nghyfarfod y FfCY a'r weminar wedi’i hawgrymu gyda phenaethiaid ysgolion cynradd ac undebau llafur.<br>• Bydd cyflwyniad cychwynnol ar y cydbwysedd rhwng cyllid uned disgyblion a bwysolir yn ôl cyfartaledd a chyfandaliad (fesul sector) yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y FfCY, wedi'i lywio gan ymarfer bwrdd gwaith gyda rhywfaint o gyfranogiad arweinyddiaeth ysgol. Bydd diweddariad yn cael ei roi ym mis Tachwedd ar ôl cyfranogiad pellach gyda rhanddeiliaid amrywiol. | MG<br>MG<br>NN<br>EA |
| 3.0 | **Cylch Gorchwyl y FfCY** | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1 | Cymeradwyodd yr aelodau y cylch gorchwyl presennol.<br><br>Roedd y Cadeirydd wedi trafod aelodaeth gyda'r is-gadeirydd; bydd gwaith ar dangynrychiolaeth (ysgolion ffydd) a gorgynrychiolaeth yn cael ei wneud cyn y flwyddyn academaidd newydd.<br><br>Nododd MG fod y fforwm yn cael ei fynychu a'i gynrychioli'n dda. Derbyniwyd sawl ymholiad gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a’r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, gan dynnu sylw at bwysigrwydd lledaenu ac adborth i sectorau, yn enwedig cynrychiolaeth undebau, gan sicrhau dolen adborth i'r fforwm ac oddi yno, gan roi eglurder i bawb. | |
| 4.0 | **Gweithdrefnau Ariannol Ysgolion** | |
| 4.1 | Cyflwynodd Chris Pyke (CPy) grynodeb lefel uchel o'r rheolau gweithdrefn ariannol diwygiedig drafft ar gyfer ysgolion, gan nodi:<br><br><u>Trosolwg</u><br><br>• Cafodd y Rheolau Gweithdrefn Ariannol ar gyfer Ysgolion eu paratoi ar ran y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Swyddog Adran 151).<br>• Roedd rheolaethau ariannol yn hanfodol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio’n briodol, yn effeithlon ac yn dryloyw. Mae archwilio mewnol yn adolygu'r rheolau hyn fel sail ar gyfer gwirio'r rheolaethau ariannol sydd ar waith mewn ysgolion.<br>• Cafodd y rheolau eu diweddaru ddiwethaf yn 2018 ac fe'u mabwysiadwyd gan Gyrff Llywodraethu ysgolion Caerdydd.<br>• Mae'r Rheolau'n gymesur ac yn angenrheidiol ar gyfer stiwardiaeth ariannol effeithiol mewn ysgolion. Roedd yn hanfodol bod y Rheolau’n cael eu dilyn gan bob aelod o staff ysgol.<br>• Cafodd y Rheolau eu diweddaru i sicrhau eu bod yn parhau’n gyfredol ac yn addas at y diben ac yn cynrychioli rhwymedigaethau a gofynion cyfredol.<br><br><u>Cyfrifoldebau</u><br><br>• Mae’r Cyngor yn gyfrifol am reoleiddio a rheoli cyllid yr Awdurdod ac am bennu'r Cynllun Dirprwyo Rheolaeth i Gorff Llywodraethu'r ysgol (y cynllun) yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.<br>• Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol (Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 114, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988).<br>• Roedd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau ymwybyddiaeth o, a chydymffurfiaeth â’r Rheolau Gweithdrefn Ariannol, a'r canllawiau cysylltiedig. Mae'r systemau dirprwyo a goruchwylio wedi'u nodi yn y Rheolau.<br>• Mae’r Pennaeth yn gyfrifol am lywodraethu effeithiol yn yr ysgol ac am arwain, cyfarwyddo a rheoli’r ysgol o ddydd i ddydd yn unol â'r Rheolau.<br>• Rhaid i Reolwr Busnes/Swyddog Cyllid yr Ysgol gydymffurfio â’r Rheolau, cynnal systemau ariannol yr ysgol a darparu monitro ac adroddiadau ariannol ar gais y pennaeth.<br><br><u>Rheoli a Chynllunio Ariannol</u> | |

- Dyletswydd ar bob llywodraethwr ac aelod o staff yw cadw at y safonau uchaf o ran cywirdeb ariannol. Mae angen sicrhau bod pawb yn deall y safonau sy'n ofynnol a bod y gofynion yn cael eu bodloni.

<u>Gosod, Monitro a Rheoli’r Gyllideb</u>

- Dilyn y Rheolau wrth osod y gyllideb, gan gynnwys y Protocol ar gyfer Ymdrin ag Ysgolion â Chyllidebau Diffyg lle bo hynny'n briodol.
- Sicrhau bod yr holl incwm a gwariant yn briodol, ac yn cael eu cofnodi a’u cyfrifyddu’n gywir. Cadw gwariant o fewn terfyn arian parod cyffredinol yr ysgol, a phenawdau cyllideb unigol. Cymryd camau cywiro priodol lle rhagwelir amrywiadau.
    - Trosglwyddiadau – Sicrhau dirprwyaethau clir a rheolaethau effeithiol ar gyfer unrhyw symudiad yn y gyllideb ddirprwyedig rhwng penawdau cyllideb.
    - Cronfeydd Canolog, Grantiau a Chronfeydd wedi’u Clustnodi – Cadw cofnodion a thalebau ar wahân a phriodol o bob trafodiad a wneir gan ddefnyddio’r ffynonellau cyllid hyn.
    - Cyllidebu Cyfalaf o Gyfrannau Cyllideb – ar gyfer safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor, ceisio caniatâd ymlaen llaw gan y Cyngor ar gyfer gwaith adeiladu arfaethedig. Dylai Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ddilyn y gweithdrefnau a nodwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.
    - Cronfeydd Wrth Gefn/Balansau Ysgolion – rheolaeth briodol a dilyn gofynion corfforaethol.

<u>Rheoli Risg a Thrin Adnoddau:</u>

- Systemau rheoli, gyda rolau a chyfrifoldebau clir, cyfeiriad clir ar ffurf amcanion a chynlluniau, trefniadau goruchwylio a monitro clir ar draws systemau ariannol a systemau perfformiad eraill, a chymryd camau rhagweledol ac adferol priodol.
- Systemau a gweithdrefnau rheoli ariannol a gweithredol, sy’n cynnwys trefniadau i gyfrifyddu ar gyfer a diogelu asedau ffisegol ac asedau gwybodaeth, gwahanu dyletswyddau, gweithdrefnau awdurdodi a chymeradwyo, atal twyll, a threfniadau chwythu’r chwiban.
- Cofrestrau buddiannau/rhoddion a lletygarwch, i gofnodi a dangos safonau uchel o ran ymddygiad, moeseg ac atebolrwydd.
- Rheolaethau staffio, gan fod costau staff yn cynrychioli cyfran sylweddol o wariant ysgolion.
- Buddsoddiadau a benthyca, ni chaniateir y rhain heb gytundeb y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.

<u>Ymgynghoriad</u>

- Ymgysylltodd swyddogion ag ysgolion uwchradd, cynradd ac arbennig ym mis Mai a mis Mehefin 2025.
- Mae gan Gadeiryddion Cyllid/Cadeiryddion Llywodraethwyr opsiynau i fynychu ar 11 neu 15 Gorffennaf.
- Ymgysylltu ag Undebau Llafur ym mis Gorffennaf/Awst.
- Gofynnir i gyrff llywodraethu fabwysiadu'r rheolau’n ffurfiol ar gyfer mis Medi 2025/26 a darparu rhaglen o gymorth i'w swyddogion cyllid.

Gwahoddwyd cwestiynau.

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd y Cadeirydd am i weithdrefnau'r ALI gael eu hailgyhoeddi i roi eglurder ar y newidiadau a wnaed, gan awgrymu bod amser yn cael ei roi i ddarllen a chymharu'r dogfennau.<br><br>Ychwanegodd CPy y gellid cynnwys newidiadau manwl rhwng pob dogfen. Darperir canllaw cyflym sy'n nodi egwyddorion allweddol a diweddariadau i'r Rheolau fel atodiad. Byddai newidiadau hefyd yn cael eu gwneud yn glir mewn sesiynau briffio.<br><br>Nododd y Cadeirydd y gall darllenwyr alw ar newidiadau allweddol yn unig, nid pob newid.<br><br>Cam Gweithredu: Bydd CPy yn atgoffa'r gwasanaethau Llywodraethwyr i ddosbarthu gwybodaeth am sesiynau galw heibio.<br><br>Cam Gweithredu: Bydd y rheolau llawn yn cael eu rhannu ar ôl y cyfarfod. Gofynnwyd i'r aelodau roi adborth i CPy ar ôl i'r ddogfen gael ei dosbarthu. | CPy<br><br>Cpy |
| 5.0 | **Balansau Ysgolion, Diweddariad Cyllideb 2026/27** | |
| 5.1 | Cyflwynodd EA falansau cronnol rhagamcanol ysgolion ar gyfer cyllidebau wedi'u cymeradwyo gan lywodraethwyr yn 2025/26, gyda balansau diffyg rhagamcanol ychydig yn uwch:<br><br>• Roedd 55 o ysgolion wedi cyflwyno cyllideb ddiffyg, cytunwyd ar 47 o'r rhain, ac mae'r cyfansymiau i'w cwblhau.<br>• Mae'r balans yn cynrychioli tyniad i lawr rhagamcanol o £17m, tua 5% o'r Gyllideb Ddirprwyedig.<br>• Y balans cronnol rhagamcanol ar gyfer meithrinfeydd - £392,948<br>• Y balans cronnol rhagamcanol ar gyfer ysgolion cynradd - £4,093,616 (45 gyda chyfanswm diffyg o £6,427,139, 53 gyda chyfanswm gwarged o £2,333,523)<br>• Y balans cronnol rhagamcanol ar gyfer ysgolion uwchradd - £5,407,582 (9 gyda chyfanswm diffyg o £6,903,898, 9 gyda chyfanswm gwarged o £1,496,316)<br>• Y balans cronnol rhagamcanol ar gyfer ysgolion arbennig - £9,245,922 (1 gyda chyfanswm diffyg o £310,929, 6 gyda chyfanswm gwarged o £173,257)<br><br>Roedd disgwyl i bob sector gael ei effeithio; gyda chynnydd sylweddol rhagamcanol ym malans diffyg ysgolion uwchradd a'r balans diffyg cyfartalog yn alldro 2025/26.<br><br>O gymharu â'r un cam yn 2024/25, cyfanswm y diffyg cyllideb rhagamcanol wedi'i gymeradwyo gan Lywodraethwyr oedd £2.3m. Roedd y sefyllfa derfynol yn 2024/25 yn welliant sylweddol, cynyddodd y balans cyfanredol i £8 miliwn o warged, oherwydd £4.5 miliwn o grantiau ychwanegol yn ystod y flwyddyn nad oeddent yn gysylltiedig â chyflog a £5.5 miliwn o arbedion o weithgareddau ysgol.<br><br>Nododd EA fod balansau dros ben yn hanesyddol yn cael eu tan-ddweud ar yr adeg hon.<br><br>Gwahoddwyd cwestiynau.<br><br><u>Newidiadau i geisiadau staffio</u> | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Mae pob penderfyniad recriwtio gydag ymrwymiad ariannol (gan gynnwys o fewn y gyllideb) yn gofyn am awdurdodiad gan Bennaeth Cyllid neu gynrychiolydd.<br>• Mae hyn yn cynnwys:<br>  o Unrhyw recriwtio o fewn Diffyg Trwyddedig cytunedig.<br>  o Recriwtio mewnol neu allanol<br>• Byddai'r Awdurdod Lleol yn rhoi ymateb o fewn dau ddiwrnod gwaith lle roedd ysgolion wedi bodloni'r gofynion angenrheidiol.<br>• Roedd awdurdodi penderfyniadau recriwtio yn canolbwyntio ar feysydd gwariant perthnasol.<br><br>Bydd EA yn rhannu sleidiau ar ôl y cyfarfod.<br><br>Anogodd MB ofal, nid oedd gan yr ALI allu i ymateb y llynedd. Mynegwyd pryderon y gallai problemau yr oedd penaethiaid yn eu profi effeithio ar eu lles. Roedd angen ymateb cyflym ar gyfer recriwtio; ni ddylid cosbi ysgolion am arian annigonol yn y system.<br><br>Nododd EA fod angen rhesymeg (rhesymau dros ymgymryd â recriwtio, cyfleoedd a gymerwyd i liniaru'r angen am recriwtio a'r gost gyffredinol a/neu'r arbedion cysylltiedig). Mae swyddogion cyllid yn ymateb cyn gynted â phosibl; roedd y broses o gyhoeddi penderfyniadau wedi'i chyflymu.<br><br>Rhoddodd MG sicrwydd nad oedd rhewi recriwtio ar waith. Rheolwyd gofynion ar lefel uchel. Dim ond un achos a oedd wedi'i drafod hyd yma. Roedd bwriad i archwilio a sicrhau arbedion effeithlonrwydd, o ystyried y sefyllfa ddiffyg ragamcanol.<br><br>Cadarnhaodd DS fod ymatebion cyflym wedi'u derbyn ar gyfer ceisiadau a wnaed (o fewn diwrnod), adleisiodd ME hyn. | |
| 6.0 | **Ymgynghoriad Rheoliadau Cyllido Ysgolion/CLGau/Cyllidebau Cyfunol** | |
| 6.1 | Nododd EA fod ymgynghoriad LlC ar Reoliadau Cyllido Ysgolion, a agorwyd ddiwedd mis Mehefin, yn cau ar 2 Medi 2025. Awgrymwyd ymateb cydgysylltiedig gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion a'r awdurdod. Cytunwyd i ofyn am estyniad i ganiatáu ymateb cydgysylltiedig gan arweinwyr ysgolion ac aelodau'r fforwm cyllideb ysgolion.<br><br>Mae'r newidiadau i ddirprwyo yn cynnwys:<br><br>• Ysgolion ffederal - gall awdurdodau ganiatáu i ysgolion ffederal dderbyn cyfran gyllideb unedig, sengl.<br>• Defnydd o ddata disgyblion – rhaid i awdurdodau ddefnyddio data'r cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion mis Ionawr diweddaraf ar gyfer cyfrifo niferoedd disgyblion mewn penderfyniadau cyllideb cychwynnol.<br>• Rhaid i awdurdodau cyllid amddifadedd gynnwys ffactorau amddifadedd penodol yn eu fformiwlâu cyllido. Nododd EA oblygiadau ar y grant datblygu disgyblion.<br><br>Argymhellion ar gadw cyllidebau:<br><br>• Lle bo'n bosibl, dylid dirprwyo cyllid i ysgolion | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Diffinio a deall gwasanaethau i ysgolion/cyllideb a gedwir gan yr awdurdod yn gadarn<br><br>Newidiadau i gynlluniau ariannol yn rheoliadau 2026:<br><br>• Rhagnodi newidiadau ar weithdrefnau ariannol, gan gynnwys gofyniad cyhoeddi a thryloywder ar ddirprwyo (beth sy'n cael ei ddirprwyo i ysgolion ai peidio).<br>• Monitro Cyllideb Dros Ben – newid trothwyon a datganiad ar sut y bydd yr awdurdod lleol yn monitro'r defnydd o'r gwarged.<br>• Cynlluniau Adennill Diffyg<br><br>Rheoliadau cyllido ysgolion:<br><br>Mae'r goblygiadau yn cynnwys –<br><br>• Newidiadau posibl i ddosbarthu cyllid i ysgolion.<br>• Newidiadau i ddirprwyaethau, mae angen mwy o waith ar ddiffiniadau cadarn a fframwaith ar gyfer penderfyniadau.<br>• Newidiadau i weinyddu balansau dros ben/cynlluniau adfer diffyg<br><br>Holwyd y fforwm ar y camau nesaf ar gyfer ymateb, a'r cymorth sydd ei angen yn ystod y cyfnod ymgynghori.<br><br>Gwirfoddololodd WM i gymryd rhan mewn trafodaeth gefnogol ar gyllideb gyfunol ac effaith ar ffederasiynau. Nododd EA pe bai un opsiwn cyllideb yn cael ei ddewis, byddai swyddogion yn gweithio trwy oblygiadau gydag ysgolion, gan weithredu dros flwyddyn neu ddwy, gan sicrhau na fyddai ysgolion yn cael eu heffeithio'n negyddol. Nododd WM effaith ehangach ar Reoliadau Cyllido Ysgolion ar gyfer ffederasiynau.<br><br>Argymhellodd MB ymateb ar y cyd gan yr awdurdod a'r FfCY, gofynnwyd i fuddion ac ymateb arfaethedig gael eu drafftio er mwyn i'r FfCY fewnosod sylwadau ychwanegol. Mae angen cyllideb briodol ar gyfer staffio i yrru gwelliant ysgolion.<br><br>Rhybuddiodd AJ rhag cyllidebau cyfunol ar gyfer ffederasiynau oherwydd llwyth gwaith, a cholli posibl y gallu i olrhain ecwiti a chyllidebau (grantiau a dysgu proffesiynol), lle cafodd elfennau o gyllidebau eu dileu. Rhaid dirprwyo'r ddarpariaeth yn briodol i fodloni angen. Byddai ymateb cenedlaethol hefyd yn cael ei gydlynu gan undebau; gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â'u hundeb i ychwanegu sylwadau.<br><br>Cwestiynodd SD gael gwared ar ffactorau fformiwla ychwanegol. Nododd EA fod y rhain yn gyfraddau, yn ffactorau sy'n gysylltiedig â safleoedd, yn amddiffyniad wrth bontio, yn addasiadau incwm ac yn amgylchiadau eithriadol. Byddai'r awdurdod yn addasu lle nad oedd cyllideb ar gael oherwydd newidiadau a wnaed, peidio â dirprwyo fyddai'r newid mwyaf. Byddai ffactorau sy'n gysylltiedig â safleoedd yn cael eu hystyried yn y chwech i wyth wythnos nesaf. Nid oedd ymateb cydgysylltiedig erbyn y dyddiad a roddwyd yn ymarferol.<br><br>Argymhellodd y Cadeirydd ofyn am estyniad, bydd ef ac EA yn drafftio ymateb ar draws y ddinas. Bydd cyfarfod y FfCY yn cael ei gynnal yn gynharach ym mis Medi i gytuno ar ymateb a chyflwyno.<br><br><u>Cyllido Gwasanaethau i Ysgolion/CLGau/Cyllidebau Cyfunol</u> | Cadeirydd |

| | | |
|---|---|---|
| | Argymhellodd EA lunio egwyddorion ar gyfer rheoli Gwasanaethau i Ysgolion.<br>Ar hyn o bryd roedd Gwasanaethau i Ysgolion yn cael eu cyllido trwy dri mecanwaith:<br><br>• Cyllidebau wedi'u cadw'n ganolog<br>• Trefniadau cyfunol<br>• Ymrwymiadau i CLGau opsiynol<br><br>Materion allweddol a nodwyd:<br><br>• Roedd penderfyniadau ynghylch cyfranogiad CLG a chynyddu taliadau'n aml yn cael eu gwneud ar ôl gosod cyllideb, gan rwystro cynllunio effeithiol ar gyfer deiliaid cyllideb mewn ysgolion a gwasanaethau.<br>• Nid oedd newidiadau mewn lefelau gwasanaeth a chostau yn cael eu hadlewyrchu ar hyn o bryd yn yr holl CLGau opsiynau a oedd yn cael eu codi ar ysgolion.<br><br>Mae diffiniadau clir at ddibenion pob cyllideb gyfunol, gyda lefelau gwasanaeth diffiniedig, i'w sefydlu, gan roi eglurder i ysgolion.<br><br><u>CLGau opsiynol 2025/26</u><br><br>Roedd dogfennau CLG gyda chynyddiadau wedi cael eu cyhoeddi, ar ôl cyfnod o ail-godi disymud. Roedd y costau newydd, a gasglwyd gyda swyddogion RhALI, yn cael eu gwirio gyda gwasanaethau i sicrhau bod yr ail-godiadau yn adlewyrchu cost gwasanaeth a rhagdybiaethau cyllideb.<br><br><u>Ffrydiau gwaith i'w gwneud o'r chwe mis nesaf ar gyfer gweithredu 2026/27</u><br><br>Cynigiodd EA adolygu ffynonellau cyllido ar gyfer gwasanaethau yn seiliedig ar nodweddion gweithredol (gellir ailddosbarthu gwasanaethau/paratoi ar gyfer newidiadau rheoleiddio cyllid ysgolion).<br><br>Nid oedd gan ME unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor ond rhybuddiodd rhag trefniadau cyfuno/CLGau a rennir, gan dynnu sylw at anawsterau wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer Technoleg Addysg a Phrentisiaethau Iau, dryswch ynghylch ble roedd arian yn cael ei gadw ac ansicrwydd ynghylch a fyddai arian yn cael ei ddychwelyd i ysgolion.<br><br>Roedd penaethiaid wedi mynegi pryderon am ddarpariaeth Prentisiaethau Iau (o ran y ffaith nad yw'n bodloni anghenion disgyblion nac ysgolion) ac arian wedi'i gadw ar gyfer y gwasanaeth nad oedd yn cael ei ddarparu. Roedd yr arian yn ddisymud ac nid oedd yn cefnogi dysgwyr. Argymhellwyd i gynigion CLG gael eu diffinio'n glir a'u cytuno ymlaen llaw.<br><br>Nododd EA y bydd yr ALI yn egluro cyfuno a meini prawf priodol. Ymgynghorwyd gyda'r FfCY a gwahanol randdeiliaid/arweinwyr sector. Bydd yr amserlen CLG yn cael ei haddasu, gan wella aliniad o ran gosod cyllideb. Bydd cyllidebau cyfunol yn cael eu cadarnhau'n fewnol (cyllid ac addysg) erbyn dechrau mis Rhagfyr a'u cyfathrebu i'r FfCY ym mis Ionawr ar gyfer cynllunio effeithiol. Byddai ysgolion yn cael eu hysbysu o ffioedd CLG opsiynol ym mis Ionawr a gofynnir iddynt optio i mewn / allan erbyn dechrau mis Mawrth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Croesawodd NN y cynigion. Darparodd CLG ar-lein rai opsiynau ond nid pob un, argymhellwyd un system syml, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi yn gynnar a chostau cyfrannol ar gyfer ysgolion mwy/llai yn hytrach nag un ffigur penodol.<br><br>Gwahoddodd EA sylwadau ar y meini prawf drafft ar gyfer cyfuno gwasanaethau/gwasanaethau heb eu dirprwyo a gofynnodd am i awgrymiadau gan y fforwm gael eu hanfon ato.<br><br>Nododd MB nad oedd y FfCY yn gorff gwneud penderfyniadau ac awgrymodd gasglu adborth o gynadleddau ysgolion. Nododd EA fod ymgynghori'n cael ei gynnal gyda'r FfCY ar y fframwaith, yn fwy parod nag yn unol â mandad. | |
| 7.0 | **Diweddariadau Fformiwla** | |
| 7.1 | <u>Adolygiad Bandio Ysgolion Arbennig</u><br><br>Nododd EA fod y sector ysgolion arbennig wedi cynyddu 34% yn ystod y chwe blynedd diwethaf.<br><br>Mae ysgolion arbennig yn cael eu cyllido gan leoedd wedi'u bandio, wedi'u cysylltu â disgrifyddion disgyblion, gan adlewyrchu ystod o anghenion.<br><br>Dosbarthwyd 76% o'r holl gyllid ysgolion arbennig ar gymarebau athrawon/cynorthwywyr addysgu a disgyblion o fewn y bandiau lleoliad.<br><br>Arweiniodd adolygiad o ddisgrifyddion band at ddisgrifyddion diwygiedig, gan adlewyrchu ystodau newydd o anghenion o fewn y system, gan dynnu sylw at gyffredinrwydd mewn darpariaeth. Arweiniodd y disgrifyddion diwygiedig at gymarebau athrawon/cynorthwywyr addysgu a disgyblion newydd, gan ddangos mwy o ddibyniaeth ar gynorthwywyr addysgu yn y sector.<br><br>Mae'r adolygiad yn sicrhau bod y fformiwla ysgolion arbennig yn adlewyrchu ymarfer.<br><br>Y camau nesaf fydd gwirio rhagdybiaethau, modelu goblygiadau cyllido a gweithredu, gan leihau anwadalrwydd. Efallai y bydd angen gweithredu tymor hwy ar newid cam mawr mewn cymarebau athrawon/cynorthwywyr addysgu a dysgwyr. Bydd trafodaeth bellach yn cael ei chynnal gydag arweinwyr ysgolion arbennig.<br><br>Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gydag ysgolion uwchradd sy'n derbyn cyllid ysgolion arbennig ar gyfer eu canolfannau adnoddau arbennig.<br><br>Bydd sefyllfa wedi'i diweddaru yn cael ei chyflwyno i'r FfCY ym mis Tachwedd, ar gyfer gweithredu'r disgrifyddion band newydd yn 2026/27.<br><br>Nododd WM fod cymhlethdod hefyd wedi cynyddu mewn ysgolion arbennig, gan ddiolch i swyddogion a chydweithwyr am eu mewnbwn, gan alluogi ysgolion arbennig i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol. | |
| 7.2 | <u>Adolygiad o Gyfandaliad/Uned Disgyblion a Bwysolir yn ôl Cyfartaledd a'r camau nesaf ar gyfer 2026/27</u><br><br>Nododd EA fod yr uned disgyblion a bwysolir yn ôl cyfartaledd a chyfandaliadau yn cyfrif am 67% o'r gyllideb ddirprwyedig a ddosberthir trwy'r fformiwla. Roedd egwyddorion a diffiniad y rhain yn cael eu hadnewyddu. Mae angen cydbwysedd | |

| | | |
|---|---|---|
| | rhwng y ddwy ffynhonnell gyllid i sicrhau bod cyllid yn adlewyrchu gweithrediadau, gan gryfhau cynaliadwyedd ariannol y system ysgolion.<br><br>Diffiniadau:<br><br>Cyllid **cyfandaliad** - swm penodol o arian a ddyrennir i ysgol waeth beth fo'r nifer o ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru, sy'n cyllido costau gweithredol sylfaenol (nad ydynt yn gysylltiedig â'r safle) ac sy'n gyffredinol i bob ysgol mewn sector penodol.<br><br>Awgrymodd EA gyflwyno Cyfandaliad amrywiol i ysgolion, i gyllido 'Costau Gweithredol Sylfaenol' a chostau uwch dîm rheoli penodol. Gallai hyn gynnwys costau ADY gweithredol craidd.<br><br>**Uned Disgyblion a Bwysolir yn ôl Cyfartaledd** – cyllid craidd fesul disgybl, sy'n amrywio yn ôl grŵp oedran i adlewyrchu cost addysg fesul disgybl, fesul grŵp blwyddyn.<br><br>Y cymarebau athrawon a disgyblion oedd y prif ffactor yn gwahaniaethu rhwng cyllid grwpiau blwyddyn. Cwestiynwyd a oedd hyn yn ddigonol i fesur cymhlethdod newidiol gweithrediadau/ehangder y cwricwlwm, gellir ystyried ffactorau eraill.<br><br>Cynigiwyd set o gostau wedi'u cyllido gan gyfandaliad ar gyfer y sector uwchradd. Byddai cynnydd yn y cyllid cyfandaliad yn gweld gwahaniaeth dibwys (ysgolion uwchradd llai yn ennill 1%, ysgolion uwchradd mwy yn colli 1%). Ystyriwyd modelu.<br><br>Roedd gan gynigion y potensial i gynyddu cyllid i ysgolion cynradd llai gan 10%, gyda gostyngiad o 10% o ysgol un dosbarth mynediad i ysgol tri dosbarth mynediad. Bydd nenfwd twf a llawr gostyngiadau yn cael eu trafod gydag arweinwyr ysgolion cynradd cyn diwedd y tymor, ar gyfer cynnig yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Awgrymwyd gweithdy ym mis Rhagfyr i ymgynghori ar newidiadau.<br><br>Nid oedd MB o'r farn bod y cyfandaliad yn fodel addas. Roedd rhai ysgolion dan anfantais anghymesur ar hyn o bryd, argymhellwyd mwy o bwyslais ar niferoedd disgyblion i annog ysgolion mwy.<br><br>Nododd EA gydbwysedd gyda chyllid yn dilyn disgyblion. Roedd newidiadau wedi'u hanelu yn fwy at ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd.<br><br>Awgrymodd GR weithgor, sy'n edrych ar ddosbarthiadau mynediad ar gyfer ysgolion. Byddai ystyried ysgolion mewn diffyg a'r math o fynediad yn llywio a ddarparwyd cyllid digonol.<br><br>Croesawodd NN ddadansoddi ffigurau ar gyfer ysgolion ac awgrymodd ystyried cyllideb gyfunol pob sector ar gyfer tegwch ledled y ddinas. Mae gan ysgol fach yr un dyletswyddau ag ysgol fwy, sef gwasanaethu cymunedau; mae angen cyllid i fodloni anghenion statudol.<br><br>Nododd ME nad yw'r cynigion yn cynyddu arian yn y system ond ei bod yn ymddangos eu bod yn gorfodi ysgolion i symud i gyfeiriad penodol. Nid oedd modd gweld manteision gwell gwasanaethau i ddisgyblion.<br><br>Cadarnhaodd EA na fyddai ysgolion yn cael eu gorfodi ar sut mae'n gweithredu, byddai costau sylfaenol yn cael eu modelu. Byddai'r adolygiad yn effeithio ar ddosbarthiad cyllid ysgolion cynradd yn fwy nag ysgolion uwchradd. Cam | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>EA |

| | | |
|---|---|---|
| | Gweithredu: Bydd EA yn creu gweithgor. Gwirfoddolodd GR i fod yn rhan o'r gweithgor.<br><br>Nododd GR arian sydd wedi'i ddal yn y sectorau uwchradd, arbennig a chynradd ac adleisiodd ystyried un set o gyllid ar gyfer yr oedrannau 3 i 16, ar draws y darn.<br><br>Dywedodd MG y byddai barn ehangach yn cael ei hystyried, byddai adborth yn cael ei gasglu i lywio'r mecanwaith cyllido a deall effaith ar bob sector, byddai camau cynyddol yn cael eu cymryd gydag arian yn cael ei ddyrannu lle roedd yn fwyaf effeithiol. Cydnabu GR y byddai aflonyddwch yn niweidiol. | |
| 7.3 | ADY<br><br>Nododd MG ddau gwestiwn allweddol i'r fforwm eu hystyried y tu allan i'r cyfarfod, gan lywio strategaeth ADY. | |
| 8.0 | **Fframwaith Athrawon Cyflenwi** | |
| 8.1 | Nododd EA fod fframwaith Gweithwyr Dros Dro ac Athrawon Cyflenwi LIC yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr a hyblyg i ysgolion ac awdurdodau lleol gael gwasanaethau gweithwyr dros dro, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol.<br><br>Gall defnyddio'r fframwaith sicrhau arbedion prisiau gyda mwy o gymhariaeth, er nad pris oedd yr unig ffactor wrth ddewis cyflenwyr Asiantaeth.<br><br>Ar hyn o bryd roedd Cyllid yn cynnal gwiriadau ar anfonebau Asiantaeth i gadarnhau bod costau'n adlewyrchu defnydd. Roedd y gyfarwyddiaeth Addysg hefyd yn adolygu gofynion cyflenwi ysgolion a throsolwg o'r opsiynau cyflenwyr sydd ar gael i ysgolion.<br><br>Bydd arweiniad pellach ar ganfyddiadau yn cael ei roi yn nhymor yr hydref. | |
| 9.0 | **Cynnig Ailraddio Seicolegwyr Addysg** | |
| 9.1 | Cynigiodd JH ailraddio ar gyfer Seicolegwyr Addysg ar y brif raddfa i wella gwasanaethau, darparu lefel fwy cynaliadwy o wasanaeth i ysgolion a lleoliadau a sicrhau cydraddoldeb ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.<br><br>Nododd fod heriau recriwtio wedi effeithio'n sylweddol ar wasanaethau i ysgolion, gan effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir. Mae cyfnod ymgynghori gyda chyflogeion ac undebau llafur wedi'i gynllunio i drafod newidiadau arfaethedig a chasglu adborth.<br><br>Gwahoddwyd ymatebion, cefnogodd y fforwm y cynigion. | |
| 10. | **Diweddariadau Pellach** | |
| 10.1 | Bydd diweddariad pellach ar Yswiriant Gwladol yn cael ei roi pan fydd yn hysbys. | |
| 10.2 | Bydd Strategaeth Gyllideb y Cyngor (Mis Medi) yn cael ei thrafod y tu allan i gyfarfod y FfCY. | |
| 11. | **Grantiau Ymgysylltu â Theuluoedd 2025/26** | |
| 11.0 | Amlinellodd PN adolygiad ar Grantiau Ymgysylltu â Theuluoedd 2025/26. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Byddai'r cyllid yn parhau neu'n cynyddu Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd (SYThau) ychwanegol mewn lleoliadau addysg, sy'n gwasanaethu cymunedau â lefelau uchel o anfantais economaidd-gymdeithasol a lle mae presenoldeb, cyrhaeddiad, ymddygiad, materion iechyd meddwl neu les yn arbennig o heriol.<br><br>Nododd yr adolygiad fod y grant wedi'i ledaenu'n rhy eang yn 2024/25 gydag ysgolion yn derbyn symiau isel. Nid oedd y symiau a ddyrannwyd yn ddigonol i gyflawni effaith ystyrlon ac ychydig o dystiolaeth o effaith a dderbyniwyd.<br><br>Mae'r dull newydd o ddyrannu a argymhellir gan y gweithgor yn gofyn am effaith a gwerth am arian, tra'n mynd i'r afael â phresenoldeb trwy ymgysylltu â theuluoedd mewn ardaloedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Cydnabuwyd manteision cydweithredu.<br><br>Gwelwyd effaith dda pan gafodd ei ddefnyddio i gyflogi SYTh.<br><br>Roedd rheolwyr Ysgolion Bro yn gynhyrchiol iawn mewn clystyrau wedi'u targedu a chytunon nhw i barhau.<br><br>Roedd y cynllun peilot Cymorth Cynnar yn llwyddiannus ac yn parhau ond nid oedd yn cael ei gyllido gan y grant mwyach.<br><br>Yn dilyn yr adolygiad, cytunwyd ar CLG gyda'r ALl ac ysgolion sy'n derbyn y cyllid, gan ymrwymo i gyflogi SYTh yn ychwanegedd. Ceisir cyllid ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan.<br><br>Gwahoddwyd sylwadau. | |
| 12. | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 12.0 | Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r fforwm dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf.<br><br>Bydd dyddiad y cyfarfod cyntaf ym mis Medi yn cael ei gadarnhau. | |
| 13. | **Crynodeb o'r Camau Gweithredu** | |
| 13.1 | a. Bydd **EA** yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ad-daliad technoleg addysg.<br>b. Bydd **MG** yn mynd ar drywydd yr ymatebion angenrheidiol gan Goleg Caerdydd a'r Fro<br>c. Gellir ymestyn y wybodaeth am dechnoleg addysg yn yr astudiaeth achos gan RP i ysgolion cynradd eraill, bydd MG yn mynd ar drywydd hyn.<br>d. **NN** i drafod gydag MG ac ystyried dull o gyflwyno gwybodaeth am dechnoleg addysg i'r FfCY ym mis Medi, a gweminar ar gyfer penaethiaid cynradd ac undebau llafur. Bydd **MO'B** yn mynychu.<br>e. EA i sefydlu gweithgor i ystyried newidiadau i gyllid uned disgyblion a bwysolir yn ôl cyfartaledd a chyfandaliad.<br>f. Bydd diweddariad ar uned disgyblion a bwysolir yn ôl cyfartaledd a chyfandaliad yn cael ei ddarparu ym mis Tachwedd ar ôl cyfranogiad pellach gyda rhanddeiliaid amrywiol.<br>g. Bydd offer i gynorthwyo penaethiaid yn eu cynllunio yn cael eu mireinio yn dilyn trafodaethau pellach a'u dwyn i gyfarfod y FfCY ym mis Medi 2025.<br>h. Bydd cynllunio ariannol/gweithredu'r model newydd o gyllid ar gyfer swyddogion presenoldeb ysgol yn cael ei drafod yng nghyfarfod y FfCY ym mis Tachwedd 2025 / mis Ionawr 2026 yn dilyn cynnydd ar yr adolygiadau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | i. Bydd y Cadeirydd yn gwirio a oedd arwyddion ar y gwahaniaeth mewn ffigurau rhwng dulliau fformiwla 2024/25 a 2025/26 wedi cael eu trafod yng nghyfarfod mis Mai'r FfCY tra'n ystyried dulliau fformiwla gwahanol a'r newid canlyniadol yn y ffrwd gyllid.<br>j. Bydd **CPy** yn rhannu'r rheolau gweithdrefn ariannol ysgolion llawn. Gofynnwyd i'r aelodau roi adborth i CPy ar ôl i'r ddogfen gael ei dosbarthu. Bydd CPy yn atgoffa'r gwasanaethau Llywodraethwyr i ddosbarthu gwybodaeth am sesiynau galw heibio.<br>k. Bydd y **Cadeirydd** ac **EA** yn drafftio ymateb ledled y ddinas ar gyfer yr Ymgynghoriad ar Reoliadau Cyllid Ysgolion, ar gyfer cytundeb yng nghyfarfod y FfCY ym mis Medi. | | |

<u>Acronymau</u>

| | |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| DDdY | Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol |
| ASG | Adroddiad Strategaeth y Gyllideb |
| FfCY | Fforwm Cyllideb Ysgolion |
| CC | Cyngor Caerdydd |
| CGCC/CG | Cronfa Galedi Cyngor Caerdydd/Cronfa Galedi |
| TGAC | Taliad Gwella Anghenion Cymhleth |
| TG | Treth Gyngor |
| CYD | Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig |
| AHY | Addysg Heblaw yn yr Ysgol |
| CA | Cynllun Ariannol |
| GA | Gwasanaethau Ariannol |
| PYADd | Prydau Ysgol Am Ddim |
| BA | Blwyddyn Ariannol |
| AD | Adnoddau Dynol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| SALl | Setliad Awdurdod Lleol |
| SRhALl | Swyddog Rheoli Ariannol Lleol |
| LlL | Llywodraeth Leol |
| CGLlL | Cronfa Galedi Llywodraeth Leol |
| DLESRTh | Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr |
| CGG | Cronfa Gydgyflenwi |
| SCTC | Strategaeth Cyllideb Tymor Canolig |
| CATCau | Cyllidebau Ariannol Tymor Canolig |
| RhATC | Rheolaeth Ariannol Tymor Canolig |
| CATC | Cynllun Ariannol Tymor Canolig |
| YG | Yswiriant Gwladol |
| DC | Dyfarniad Cyflog |
| GAD | Grant Amddifadedd Disgyblion |
| Ch_ | Chwarter_ (Rhif perthnasol) |
| CBG | Cyflog Byw Gwirioneddol |
| SPY | Swyddog Presenoldeb Ysgol |
| BY | Balans Ysgol |
| FfCY | Fforwm Cyllideb Ysgolion |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| CLG | Cytundeb Lefel Gwasanaeth |

| | |
|---|---|
| RhTY | Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion |
| CAA | Canolfan Adnoddau Arbenigol |
| ULl | Undeb Llafur |
| LlC | Llywodraeth Cymru |